AROS GARTREF ACHUB BYWYDAU
gyda Heddlu Gwent

# SUT I WNEUD BANERI DIWRNOD VE GYDA HEDDLU GWENT

**PARATOI DY FANERI…**

Lawrlwytha'r templed o wefan Heddlu Gwent:
www.gwent.police.uk/cy/newyddion/adnoddau-i-blant

Nawr gelli ei argraffu. Mae dwy faner ar bob tudalen a gelli argraffu faint bynnag a fynni di.

Torra ar hyd y llinellau dotiog gyda siswrn. Gwna'n siŵr dy fod yn ofalus a gofynna i riant neu oedolyn dy helpu os oes angen.

**ADDURNO DY FANERI…**

Gad y stribed uchaf heb ei lliwio - bydd yn cael ei phlygu drosodd ar y diwedd.

Addurna a lliwia'r prif driongl gydag unrhyw beth a fynni. Rydym wedi tynnu llun Jac yr Undeb a'n arwyddlun ni, ond mae'r gweddill i fyny i ti.

Gelli ddefnyddio paent, pensil, gliter, sticeri, creonau neu beth bynnag sydd gen ti gartref. Bydd yn ofalus a gofyn i riant neu oedolyn dy helpu os oes angen.

**RHOI'R BANERI AT EI GILYDD…**

Ar ôl i ti addurno pob triongl, plyga ar hyd y llinell ddu solet ar hyd y top i wneud fflap.

Rho'r fflap dros linyn neu ruban a defnyddia lud neu dâp i roi'r fflap yn sownd.

Gad fwlch rhwng pob triongl, gan ychwanegu pob un nes dy fod wedi gorffen. Gwna'n siŵr dy fod yn gadael darn o linyn/rhuban dros ben ar bob pen i'w hongian.

Nawr rho'r baneri yn dy ffenest i bobl eu mwynhau!

Byddai'n wych gweld dy faneri Diwrnod VE a'u rhannu gyda phobl Gwent ar y cyfryngau cymdeithasol. Anfon dy luniau atom ni neu tagia ni ar dy negeseuon cyfryngau cymdeithasol - cofia ddefnyddio'r hashnod #VEDay75.

ANFONWCH NEGES UNIONGYRCHOL ATOM AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL PAN NAD YW'N ARGYFWNG 999
DIRECT MESSAGE US ON SOCIAL MEDIA WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

PAN NAD YW'N ARGYFWNG 999
101
WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

PAN FYDD BYGYTHIAD I'CH DIOGELWCH PERSONOL
999
WHEN YOUR PERSONAL SAFETY IS UNDER THREAT

1977_01







1977_01

ANFONWCH NEGES UNIONGYRCHOL ATOM AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL PAN NAD YW'N ARGYFWNG 999

DIRECT MESSAGE US ON SOCIAL MEDIA WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

PAN NAD YW'N ARGYFWNG 999

**101**

WHEN IT'S LESS URGENT THAN 999

PAN FYDD BYGYTHIAD I'CH DIOGELWCH PERSONOL

**999**

WHEN YOUR PERSONAL SAFETY IS UNDER THREAT

Ar ôl i ti orffen y baneri, beth am eu rhannu gyda ni! Postia lun ohonyn nhw ar y cyfryngau cymdeithasol a thagio @GwentPolice.

HEDDLU GWENT POLICE

**VE DAY**

75TH ANNIVERSARY

A SHARED MOMENT OF CELEBRATION

8-10 MAY 2020

**AROS GARTREF ACHUB BYWYDAU**

gyda Heddlu Gwent